Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) 2024** |
| **DYDDIAD** | **23 Ebrill 2024** |
| **GAN** | **Huw Irranca-Davies, Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.** |

Bydd Aelodau'r Senedd yn dymuno cael gwybod fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Gweinidog Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnodd y Gweinidog Gwladol dros Fioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid, yr Arglwydd Douglas-Miller imi gytuno i'r bwriad i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) 2024 ("Rheoliadau 2024") i fod yn gymwys i'r Deyrnas Unedig.

Gwnaed yr OS uchod gan y Gweinidog Gwladol drwy arfer y pwerau a roddir o dan:

- baragraff 2 o Atodiad 6 i Reoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau iechyd a lles anifeiliaid, cynhyrchion iechyd planhigion a diogelu planhigion, a
- paragraff 11A o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011.

Diben Rheoliadau 2024, mewn cydweithrediad â Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Diwygiadau Amrywiol) 2024 yw gweithredu ail garreg filltir Model Gweithredu Targed y Ffin o 28 Ebrill 2024. Mae Rheoliadau 2024 yn diwygio dyddiad diwedd y Cyfnod Graddoli Trosiannol o 29 Ebrill 2024 i 31 Ionawr 2025 fel y gall ail gam Model Gweithredu Targed y Ffin ddechrau o 30 Ebrill 2024 ymlaen.

Nid ydym eto wedi cytuno â llywodraethau'r DU a'r Alban ar ddyddiad ar gyfer dechrau gwiriadau ffisegol ar allforion o Iwerddon, ac rydym eisoes wedi cyhoeddi na fydd ein

cyfleusterau yn weithredol cyn gwanwyn 2025, ac felly bydd angen estyniad pellach i'r cyfnod graddoli trosiannol o ddiwedd Ionawr 2025.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â pharatoi cig sy'n berthnasol i Loegr yn unig. Rwyf wedi gwneud diwygiadau tebyg ar gyfer Cymru yn Rheoliadau Paratoadau Cig (Cymru) (Diwygio) 2024 a osodwyd gerbron y Senedd ar 12 Ebrill.

Gosodwyd Rheoliadau 2024 gerbron Senedd y DU ar 22 Ebrill 2024, a byddant yn dod i rym ar 28 Ebrill 2024.

**Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.**

Nid yw Rheoliadau 2024 yn ymrwymo Gweinidogion Cymru i fabwysiadu unrhyw safbwynt o eiddo Llywodraeth y DU ar fioddiogelwch yn y dyfodol.

Nid yw'r Rheoliadau yn lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd, ac nid ydynt yn creu, yn diwygio, nac yn dileu unrhyw swyddogaethau a roddir i Weinidogion Cymru.

Hoffwn sicrhau'r Senedd mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru ar faterion o fewn cymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae manteision i gydweithio â Llywodraeth y DU pan fo sail resymegol glir dros wneud hynny. Ar yr achlysur hwn, rwyf wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod o ran newid polisi yn y dyfodol, cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol, cydgysylltu trawslywodraethol a chysondeb.

**Diben Rheoliadau 2024**

Diben Rheoliadau 2024 yw amddiffyn bioddiogelwch, sicrhau diogelwch bwyd a chefnogi masnach, drwy gyflwyno ail garreg filltir Model Gweithredu Targed y Ffin a gytunwyd gan holl weinyddiaethau Prydain.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion tarddiad, diben ac effaith Rheoliadau 2024, ar gael yma:

[The Official Controls (Extension of Transitional Periods) (Amendment) Regulations 2024 (legislation.gov.uk)]

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud yr offeryn hwn o ganlyniad i'r cytundeb ar Fodel Gweithredu Targed y Ffin rhwng y tair gweinyddiaeth ym Mhrydain i gyflwyno cyfundrefn glanweithiol a ffytoiechydol cydlynol a chyson ar gyfer nwyddau a fewnforir

i Brydain i amddiffyn bioddiogelwch a sicrhau bod safonau diogelwch bwyd yn cael eu cynnal.